| | |
|---|---|
| **Teitl:**<br>**Title:** | Polisi Cyfrinachedd - Meithrinfa Toybox |
| **Fersiwn:**<br>**Version** | 2 |
| **I bwy mae'r Polisi hwn yn berthnasol?**<br>**Who does this Policy Relate to?** | Myfyrwyr / Staff / Myfyrwyr a Staff / Arall (rhowch fanylion)<br>Myfyrwyr, meithrinfa, staff |

### Cydraddoldeb ac Amrywiaeth / Equality & Diversity

| | |
|---|---|
| Dolen at Gam 1 Asesu Effaith (ar Gydraddoldeb a'r Gymraeg): / Impact Assessment Stage 1 (Equality & Welsh) link: | *Asesiad effaith / Impact assessment* |
| *Effaith ar y Gymraeg*<br><br>*Mae asesiad effaith wedi'i gynnal ar y polisi hwn i ystyried ei effaith ar yr Iaith Gymraeg yn unol â Safonau'r Gymraeg (94-104) a Mesur yr Iaith Gymraeg (Cymru) 2011.* | *Welsh Language Impact*<br><br>Mae asesiad effaith wedi'i gynnal ar y polisi hwn i ystyried ei effaith ar y Gymraeg yn unol â Safonau'r Gymraeg (94-104) a Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011. |

### Adolygu a Chymeradwyo / Review and Approval

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Perchennog y Ddogfen:**<br>**Document Owner:** | **Rheolwr y Feithrinfa /Nursery Manager** | | |
| **Ymgynghoriad/**<br>**Consultation:** | Staff y Feithrinfa | | |
| **Dyddiad Cymeradwyo / Date Approved** | Cymeradwyaeth y Pwyllgor Mewnol e.e. Grŵp Diogelu / Internal Committee Approval e.g. Safeguarding Group | | - |
| | Pwyllgor Cyfathrebu a Diwylliant / Communications & Culture Committee: | | *15/01/2025* |
| | Pwyllgorau'r Bwrdd / Board Committees: | Pwyllgor Archwilio a Risg / Audit & Risk Committee: | - |
| | | Pwyllgor Cwricwlwm a Safonau / Curriculum & Standards Committee | - |
| | | Pwyllgor Cyllid, Pobl a Diwylliant / Finance, People & Culture Committee: | - |
| | Corff Llywodraethu / Governing Body: | | - |
| **Dyddiad Adolygu:**<br>**Review Date:** | *15/01/2028* | | |

Anfonwch y ddogfen wedi ei chymeradwyo i'w chyfieithu gan ddefnyddio'r Ffurflen Cais Cyfieithu
Send approved document for Translation using the Translation Request Form

Rhifwch bob adran a pharagraff
Please number each section and paragraph

**1. Polisi**

1.1. I ddiwallu anghenion ein holl blant yn Toybox, mae'n bwysig iawn ein bod yn rhannu gwybodaeth â rhieni a staff fel ein bod yn gallu olrhain a chynorthwyo datblygiad y plentyn.

1.2. Bydd diogelwch a llesiant y plentyn yn hollbwysig.

1.3. Gall rhieni/gofalwyr gyrchu unrhyw ffeiliau a chofnodion eu plentyn eu hunain ond ni fyddant yn gallu cyrchu gwybodaeth am unrhyw blant eraill.

1.4. Ni ddylai staff drafod unrhyw blentyn unigol, ac eithrio at ddibenion cynllunio'r cwricwlwm/rheoli grwpiau, gydag unrhyw un heblaw rhieni/gofalwyr y plentyn hwnnw ***heb ganiatâd*** oni bai y bernir i'r plentyn fod mewn perygl.

1.5. Ni ddylid rhannu unrhyw wybodaeth a roddwyd gan rieni/gofalwyr i staff Meithrinfa Toybox gydag oedolion eraill, heb ganiatâd, oni bai y bernir i'r plentyn fod mewn perygl.

1.6. Dylid cadw unrhyw bryderon/tystiolaeth am ddiogelwch personol plentyn mewn ffeil gyfrinachol, a chaiff ei rhannu dim ond gyda'r staff perthnasol sy'n gofalu am y plentyn hwnnw, ac asiantaethau perthnasol os gofynnir am hynny.

1.7. Ar brydiau efallai bydd angen i ni geisio cyngor a chymorth gan weithwyr proffesiynol allanol arall e.e. y Gwasanaethau Cymdeithasol, Ymwelydd Iechyd ac ati. Cysylltir â'r rhieni yn gyntaf a gofyn am eu caniatâd os cymerir y math hwn o gamau.

1.8. Bydd unrhyw wybodaeth a roddir i'r feithrinfa ar "sail yr angen i wybod" ac yn hynod gyfrinachol ac ni ddylid ei thrafod y tu allan i safle'r feithrinfa.

1.9. Ni ddylai staff, gwirfoddolwyr na myfyrwyr drafod pryderon am aelodau unigol o staff gydag unrhyw un heblaw'r Rheolwr.

1.10. Bydd staff, gwirfoddolwyr a myfyrwyr yn cael gwybod am y polisi cyfrinachedd ac mae'n ofynnol iddynt gadw ato.

**2. Cytunaf i'r amodau uchod.**

**2.1. Llofnodwyd……………………………………………**
**Dyddiad…………………………………………….**